OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 3342

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009

## RHAN 3

Datganiadau Amgylcheddol

PENNOD 3

Datganiadau Amgylcheddol: Ymgynghori a Chyfranogiad y Cyhoedd

### Tystiolaeth ddogfennol sydd i'w chyflwyno i awdurdod cynllunio mwynau perthnasol neu i Weinidogion Cymru ar ôl cyhoeddi hysbysiad o ddatganiad amgylcheddol

**21.**—(1) Rhaid i geisydd neu apelydd a hysbysir yn unol â rheoliad 18(21) gyflwyno—

(a) os rhoddwyd yr hysbysiad gan awdurdod cynllunio mwynau perthnasol, i'r awdurdod hwnnw;

(b) os rhoddwyd yr hysbysiad gan awdurdod cynllunio mwynau perthnasol, a chyn cyflwyno'r dogfennau sy'n ofynnol o dan y rheoliad hwn, atgyfeiriwyd y cais AEA at Weinidogion Cymru i'w benderfynu, i Weinidogion Cymru; neu

(c) os rhoddwyd yr hysbysiad gan Weinidogion Cymru, i Weinidogion Cymru,

y dogfennau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y dogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

(a) copi o'r hysbysiad a grybwyllir yn rheoliad 20(1) wedi ei ardystio gan neu ar ran y ceisydd neu'r apelydd fel hysbysiad a gyhoeddwyd mewn papur newydd a enwyd ar ddyddiad a bennir yn y dystysgrif;

(b) tystysgrif gan neu ar ran y ceisydd neu'r apelydd sy'n datgan naill ai—

(i) bod y ceisydd neu'r apelydd wedi arddangos hysbysiad ar y tir er mwyn cydymffurfio â rheoliad 20(3) a (4), y dyddiad yr arddangoswyd yr hysbysiad felly, ac naill ai bod yr hysbysiad wedi ei adael yn ei le am ddim llai na saith niwrnod yn ystod y 28 diwrnod yn union cyn y dyddiad y cyflwynwyd y dystysgrif neu, heb fai na bwriad ar ran y ceisydd neu'r apelydd, y symudwyd, cuddiwyd neu difwynwyd yr hysbysiad cyn i'r saith niwrnod ddod i ben a bod y ceisydd neu'r apelydd wedi cymryd camau rhesymol i'w ddiogelu neu ei amnewid, gan nodi'r camau a gymerwyd; neu

(ii) nad oedd modd i'r ceisydd neu'r apelydd gydymffurfio â rheoliad 20(3) a (4) oherwydd nad oedd gan y ceisydd neu'r apelydd yr hawliau angenrheidiol i wneud hynny; bod y ceisydd neu'r apelydd wedi cymryd pa bynnag gamau rhesymol oedd yn agored i'r ceisydd neu'r apelydd er mwyn caffael yr hawliau i wneud hynny; ac na lwyddodd i wneud hynny, gan nodi'r camau a gymerwyd; ac

(c) pan fo'r ceisydd neu'r apelydd wedi ei hysbysu ynghylch unrhyw berson penodol y mae'n debygol yr effeithir arno gan y cais, neu sydd â buddiant yn y cais, copi o'r hysbysiad a grybwyllir yn rheoliad 20(2), wedi ei ardystio gan neu ar ran y ceisydd neu'r apelydd fel hysbysiad a roddwyd i'r person hwnnw ar ddyddiad a bennir yn y dystysgrif.

(3) Os yw unrhyw berson yn dyroddi tystysgrif sy'n honni cydymffurfio â gofynion paragraff (2)(b) ac yn cynnwys datganiad y gŵyr y person hwnnw ei fod yn ffug neu gamarweiniol mewn unrhyw fanylyn perthnasol, neu'n dyroddi yn ddi-hid tystysgrif sy'n honni cydymffurfio â'r gofynion hynny ac yn cynnwys datganiad sy'n ffug neu gamarweiniol mewn unrhyw fanylyn perthnasol, mae'r person hwnnw yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.